CABINET

COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER 5 HYDREF 2022 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd), C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd) ac C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), y Cynghorydd J. Simmonds (Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Thrafnidiaeth).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr) ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, y Gymuned a Gwasanaethau Hamdden), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), J. Morgan (Rheolwr Safonau Masnach), A. Lewis (Swyddog Trawsnewid), A. West (Ysgolion yr 21ain Ganrif), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w wylio trwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i'w wylio.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd)

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Yn ystod y drafodaeth, datganodd y Cynghorydd S. Morgan ac E. Stenner fuddiant personol gan fod y ddau ohonynt yn Landlordiaid a datganodd y Cynghorydd E. Forehead fuddiant personol gan fod ei phartner yn Landlord, yn gysylltiedig ag Eitem Rhif 8 ar yr Agenda –

Diwygiadau i Awdurdodi Swyddogion yn yr Is-adran Diogelu'r Cyhoedd a Chymeradwyo Trefniadau Gorfodi Cyfatebol rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Oherwydd buddiant personol oedd hyn, nid oedd gofyniad iddynt adael y cyfarfod a gallent gymryd rhan yn llawn yn y drafodaeth a'r bleidlais.

3. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, yn rhestru'r adroddiadau sydd i'w cyhoeddi hyd at 25 Ionawr 2023.

Atgoffwyd Aelodau fod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithredol ac, felly, y gallai newid. Diolchodd yr Arweinydd i'r Swyddogion am lenwi'r flaenraglen waith gymaint ymlaen llaw a derbyniodd y Cabinet y gallai newid, gan ei bod yn ddogfen fyw.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn trwy godi llaw.

4. RHAGLEN CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU – ADRODDIAD EHANGU YSGOL TRINITY FIELDS

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2022.

Ystyriwyd yr adroddiad, a oedd yn anelu at roi diweddariad i'r Cabinet ar ddiwygiad arfaethedig i Fand B y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ar gyfer ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields ac a oedd, hefyd, yn anelu at ddiwygio'r penderfyniad a gymeradwyodd y Cabinet yn flaenorol ar 7 Ebrill 2021 i ehangu'r ysgol ar gae chwarae'r Cyngor wrth ymyl safle presennol yr ysgol.

Nododd y Cabinet y byddai'r cynnig yn ei ffurf wreiddiol yn galluogi'r ysgol i ddarparu cyfleusterau dysgu o'r radd flaenaf i ddysgwyr presennol, ynghyd â chreu amrywiaeth fawr o gyfleusterau ychwanegol i 80 disgybl ychwanegol. Mae'r ysgol yn darparu gwasanaethau hanfodol i'n dysgwyr mwyaf agored i niwed, y mae gan lawer ohonynt amrywiaeth eang o anawsterau dysgu ac anghenion corfforol a meddygol. Gan fod enw da'r ysgol wedi cynyddu, roedd y galw hefyd am leoedd wedi cynyddu ac er bod strategaethau i ymdopi â'r galw ychwanegol hwn eisoes yn cael eu rhoi ar waith, roedd angen gwneud rhywbeth mwy arwyddocaol i fynd i'r afael â'r galw hyn cyn gynted â phosibl.

Heb ddarparu'r capasiti ychwanegol hwn, cynghorwyd y Cabinet fod risg na fyddai'n bosibl ateb anghenion plant agored i niwed yn lleol ac y gallai fod angen darpariaeth y tu allan i'r sir.

Nododd y Cabinet y gwrthwynebiad cymunedol sylweddol i'r cynllun gwreiddiol, a ganolbwyntiodd ar golli man gwyrdd a cholli'r cae chwarae cyfagos. Cadarnhawyd fod y prosiect wedi cael ei atal am flwyddyn a bod yr ysgol yn wynebu pwysau acíwt a bod angen symud y cynnig yn ei flaen yn gyflym nawr. Ar sail y galw brys a'r gwrthwynebiad cymunedol, mae cyfaddawd bellach yn cael ei gynnig a fyddai'n galluogi ychwanegu 80 lle, tra'n mynd i'r afael â phryderon y gymuned.

Yn y cynnig diwygiedig, byddai estyniad dau lawr yn cael ei ddatblygu ar ran o faes parcio'r ysgol, gan greu 10 ystafell ddosbarth ychwanegol heb golli'r cae chwarae, a fyddai felly'n fwy tebygol o fod yn dderbyniol i'r gymuned. Cynghorwyd y Cabinet fod dyluniadau ar gyfer y cynnig yn cael eu mireinio o hyd ond roeddent wedi cael cefnogaeth unfrydol gan yr ysgol a'i chorff llywodraethu ac roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau hefyd na fyddai angen ymgynghori ymhellach ynghylch y cynnig hwn er mwyn iddo symud ymlaen.

Croesawodd y Cabinet y cynnig diwygiedig a oedd yn mynd i'r afael â phryderon y gymuned ac anghenion dysgwyr agored i niwed.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch y problemau draenio ar safle Sue Noakes a chadarnhaodd Swyddogion fod hyn wedi bod yn bryder ers cryn amser, heblaw am yr ehangu, a chynghoront eu bod wedi bod yn gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru, sydd wedi gweithio'n galed tu hwnt i ddatrys hyn. Nodwyd ei bod hi'n ymddangos bod silt yn rhwystro 50% o ddau o ddarnau'r garthffos islaw Sue Noakes, tuag at orlif cyfunol y carthffosydd, felly yn ystod tywydd drwg, nid oedd dŵr a ddylai gyrraedd y gorlif yn cyrraedd yno ac, oherwydd bod Sue Noakes ym mhwynt isaf y garthffos, roedd yn gollwng yn y safle hwn. Mae'r silt bellach wedi'i dynnu oddi yno ac mae Dŵr Cymru yn hyderus fod y broblem wedi cael ei datrys.

Cyfeiriodd y Cabinet at gynigion Band C ac a oedd unrhyw gynnydd o ran nodi safleoedd datblygu posibl. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai cynigion Band C yn destun adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol, byddai safleoedd posibl yn destun ymchwiliad yn ddiweddarach yn ystod y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ac yn cael eu dwyn i sylw'r Aelodau.

Ceisiwyd sicrwydd y byddai rhieni'n cael gwybod am gynnydd y datblygiad yn rheolaidd a chadarnhaodd Swyddogion y byddai gohebiaeth reolaidd â rhieni, a bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Ysgol ar fin anfon llythyr yn amlinellu'r union gynllun a'r camau nesaf i'r datblygiad, a sut byddai rhieni'n cael gwybod am gynnydd.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Bod y wybodaeth yn yr adroddiad yn cael ei hystyried.

2. Bod yr argymhelliad i ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields trwy estyniad dwy lawr ar ran o Faes Parcio'r Ysgol yn cael ei chymeradwyo.

3. Bod swyddogion yn ymchwilio i opsiwn tymor hwy i greu ail Ysgol Arbennig yn y Fwrdeistref o dan Fand C y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

5. FFERM SOLAR CWM IFOR

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer achos busnes amlinellol i ddatblygu fferm solar yng Nghwm Ifor ym Mhenyrheol, Caerffili.

Nododd y Cabinet mai datblygiad posibl y Fferm Solar 20MW, pe bai'n cael ei gymeradwyo, fyddai'r fferm solar fwyaf ym mherchnogaeth awdurdod cyhoeddus yng Nghymru. Rhagwelwyd y byddai'r datblygiad yn costio rhwng £12-16m, y byddai'n para 35 mlynedd a byddai Cyfradd Adennill ddisgwyliedig y Buddsoddiad (IRR) yn 4.52% y flwyddyn. Hefyd, byddai'r prosiect yn cynhyrchu rhwng £669,000PA a £892,000PA yn ystod ei oes, gan dalu amdano'i hun ymhen tua 18 mlynedd er, gyda phrisiau ynni'n codi cymaint yn ddiweddar, gallai hyn ostwng yn sylweddol.

Nododd y Cabinet ymhellach y byddai'r cynnig yn cynhyrchu 40 'swydd werdd' ac y byddai, yn ystod ei oes, yn arbed tua 55,300 tunnell fetrig o CO2 neu tua 1,580 tunnell fetrig o CO2 y flwyddyn, a fyddai'n ddigon i bweru tua 6000 o dai.

Esboniwyd bod y prosiect wedi'i ddosbarthu'n 'Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' a gofynnodd y Cabinet am eglurhad o beth roedd hyn yn ei olygu o ran y broses gynllunio.

Cadarnhaodd y Swyddog y byddai Llywodraeth Cymru'n penderfynu ar unrhyw gais cynllunio, ond byddai'r Cyngor yn ymgynghorai.

Croesawodd y Cabinet y cynnig fel rhan o ymrwymiad yr Awdurdod i fod yn Garbon Sero Net erbyn 2030 a'i fod yn gam hanfodol ymlaen ar gyfer targedau ynni adnewyddadwy, a cheisiodd eglurhad ynghylch sut byddai buddion cymunedol yn cael eu hannog yn lleol. Esboniodd Swyddogion y byddent yn gweithio'n helaeth gyda chymunedau i nodi syniadau am fuddsoddiadau, cymorth a datblygiad.

Pwysleisiodd y Cabinet y rôl bwysig fyddai gan Aelodau Ward Lleol yn y gofod hwn a chadarnhaodd Swyddogion fod Aelodau Ward wedi cael eu cynnwys trwy gydol datblygiad y prosiect a'u bod wedi ymweld â'r safle ochr yn ochr â'r Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Bod yr achos busnes amlinellol sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yn cael ei gymeradwyo.

2. Cytuno ar gyflwyno'r cais cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW).

3. Bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet i lofnodi'r cytundeb opsiwn a'r brydles gyda'r tir berchennog ar gyfer tir y fferm solar.

4. Cytuno y bydd y Cyngor, pan gymeradwyir y cais cynllunio, yn cael costau llawn trwy broses gaffael lawn i baratoi'r Achos Busnes Llawn i'w ystyried gan y Cabinet.

6. DIWEDDARIAD AR WEITHIO YSTWYTH

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2022.

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn mynd ati i roi diweddariad i'r Cabinet ar y cynnydd a wnaed o ran gwreiddio egwyddorion Gweithio Ystwyth ar draws y sefydliad ac i amlinellu'r camau angenrheidiol i ffurfioli'r arferion hyn.

Nododd y Cabinet fod arolygon diweddar staff wedi cynnwys cwestiynau penodol am weithio ystwyth a'i bod yn well gan 80% o staff weithio gartref 'yn bennaf' neu rannu eu hunain yn gyfartal rhwng y gwaith a gartref. O ran lefelau presenoldeb, nodwyd ymhellach mai dim ond cynnydd bach a fu yn y niferoedd sy'n mynd i adeiladau yn sgil llacio mynediad staff i adeiladau'r Cyngor. Roedd y lefel presenoldeb yn Nhŷ Penallta rhyw 22% ar y mwyaf, a ddangosodd yn glir y gall llawer o swyddi gweinyddol gael eu darparu o amrywiaeth o leoliadau os oes adnoddau a chysylltedd addas ar gael. Gofynnodd proses bellach o gynllunio capasiti i Benaethiaid Gwasanaeth weithio gyda staff i sefydlu patrymau gweithio a gofynion capasiti o gymharu ag anghenion defnyddwyr ein gwasanaethau ac, eto, cadarnhaodd hyn y byddai'r capasiti dros ben sy'n cael ei weld yn y rhan fwyaf o'r adeiladau yn debygol o barhau wrth symud ymlaen. Mae'r capasiti dros ben hwn yn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i'r Cyngor o ran ei ofynion cyfan am safleoedd, ei wariant gweithredol, gwydnwch ei wasanaethau, ei sefyllfa fel cyflogwr o ddewis, ei ôl troed carbon a'i dderbyniadau cyfalaf. Felly, cyn ei gyflwyno'n ehangach ar draws holl adeiladau'r Cyngor, roedd sefydlu'r Hyb Ystwyth yn Nhŷ Penallta'n cael ei gynnig.

Nodwyd bod sgyrsiau'n parhau gyda staff ac y byddai prosiectau a ffrydiau gwaith yn cael eu hadolygu a'u datblygu wrth i'r buddion posibl gael eu ffurfioli a holl bolisïau ac arferion angenrheidiol gweithio hyblyg gael eu gwreiddio'n ffurfiol fel egwyddor graidd darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad a'r buddion y byddai gweithio ystwyth yn eu dwyn nid yn unig o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a, hefyd, cynhyrchedd, yr amgylchedd, ac iechyd a lles. Cyfeiriwyd at broblemau recriwtio a chadw parhaus, a'r gobaith y byddai gweithio ystwyth hefyd o fudd i'r maes hwn, yn enwedig gan fod y sector preifat eisoes yn symud i'r gofod hwn.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd cytuno'n unfrydol ar hyn, trwy Microsoft Forms, yn amodol ar gynnwys argymhelliad ychwanegol yn 3.1(5) i ddarllen bod y Cabinet yn nodi y bydd y Cyngor yn parhau i ymgynghori â'r Undebau Llafur a Staff trwy gydol y broses wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Bod cynnydd yr Adolygiad Corfforaethol o Weithio Ystwyth hyd yn hyn yn cael ei nodi.

2. Bod y bwriad strategol a'r Deilliannau arfaethedig ar gyfer yr Adolygiad Corfforaethol o Weithio Ystwyth yn cael eu nodi.

3. Bod sylwadau'n cael eu derbyn a'u nodi ynghylch y bwriad i ddatblygu Tŷ Penallta yn Hyb Gweithio Ystwyth.

4. Bod y cynnydd yn erbyn y ffrydiau gwaith i gefnogi'r datblygiad hwn yn cael ei nodi.

5. Nodi y byddai'r Cyngor yn parhau i ymgynghori â'r Undebau Llafur a staff trwy gydol y broses wrth symud ymlaen.

7. LLYWIO'R POLISI AR GASGLU ARIAN PAROD

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2022.

Ystyriwyd yr adroddiad, a geisiodd roi diweddariad i'r Cabinet ar y dulliau talu a ddefnyddir ar hyn o bryd gan drigolion a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet ynghylch y polisi yn y dyfodol ar daliadau arian parod.

Nododd y Cabinet fod Covid-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar y dulliau amrywiol sydd ar gael i drigolion i wneud taliadau i'r Cyngor, gyda phobl yn mynd o daliadau arian parod i ddulliau talu eraill. O ganlyniad, cynigiwyd y dylai'r newid hwn i ddulliau amgen gael ei gynnal a'i annog yn y tymor hwy. Cyfeiriwyd y Cabinet at adran 5.11 adroddiad y Swyddogion ac fe'u cynghorwyd y byddai taliadau arian parod yn parhau i gael eu derbyn mewn Mannau Twristiaeth, Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd a sefydliadau Gwasanaethau Cymdeithasol, ond byddai hyn yn cael ei adolygu a byddai symud i ddulliau di-arian-parod yn cael ei ystyried lle bo cyfleoedd yn codi.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Oherwydd y symud a gafwyd i ddulliau talu eraill yn ystod pandemig Covid-19, cytunwyd na fydd taliadau arian parod yn cael eu hailgyflwyno mewn Swyddfeydd

Gwasanaethau Cwsmeriaid.

2. Bod parhau i dderbyn taliadau arian parod mewn Ysgolion, Mannau Twristiaeth, Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd a sefydliadau Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei nodi, ac y bydd cyfleoedd i symud i ddulliau talu eraill yn cael eu harchwilio'n llawn lle bynnag y bo'n bosibl.

8. DIWYGIADAU I AWDURDODIAD SWYDDOGION YN YR IS-ADRAN AMDDIFFYN Y CYHOEDD A CHYMERADWYO TREFNIADAU CYFATEBOL AR GYFER GORFODI RHWNG CYNGOR DINAS CASNEWYDD A CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI.

Yn ystod y drafodaeth, datganodd y Cynghorwyr S. Morgan ac E. Stenner fuddiant personol o ran yr adroddiad hwn gan eu bod ill dau yn Landlordiaid a datganodd y Cynghorydd E. Forehead fuddiant personol gan fod ei phartner yn Landlord. Oherwydd buddiant personol oedd hyn yn unig, nid oedd yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod a gallent chwarae rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio.

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn mynd ati i hysbysu'r Cabinet am y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio. Nododd y Cabinet fod angen awdurdodiad ychwanegol ar Swyddogion yn yr Is-adran Amddiffyn y Cyhoedd i gyflawni eu dyletswyddau, sef Deddf Arfau Ymosodol 2019, Deddf Meddygaeth a Dyfeisiau Meddygol 2021, Deddf Ynni 2011 a Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) 2022. Nodwyd bod Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2021 hefyd yn gofyn bod awdurdodau Pwysau a Mesurau lleol yn trosglwyddo dyletswyddau gorfodi ynghylch adeiladau o dan reolaeth neu ym mherchenogaeth awdurdodau lleol i awdurdod Pwysau a Mesurau lleol arall, felly dyma pam roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth trefniadau cyfatebol gydag Awdurdodau Pwysau a Mesurau Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cyfeiriwyd at adran 5.4 yr adroddiad a chydymffurfiad gan Landlordiaid â'r gofynion effeithlonrwydd ynni isaf ar gyfer eiddo domestig ac annomestig, ac a fyddai'r gofyniad hwn yn cael ei ddiwallu trwy orfodi neu ar sail help a chyngor. Cadarnhaodd y Swyddog y byddid yn delio â diffyg cydymffurfio yn gymesur, gan roi help a chyngor yn y lle cyntaf. Pe bai'r Landlord yn gwrthod neu'n anwybyddu'r cyngor, roedd llwybrau ar gyfer camau gorfodi ar gael i Swyddogion. Sicrhawyd y Cabinet y byddai Landlordiaid yn cael digon o amser i gyflawni unrhyw welliannau.

Yna, cyfeiriwyd at adran 5.6 yr adroddiad yn gysylltiedig â chasglu rhenti rhad a gorfodi. Cadarnhaodd Swyddogion fod cyfres o gosbau y gellir eu gorfodi os oes digon o dystiolaeth o dorri'r ddeddf, gan gynnwys cosbau ariannol.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Bod y Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd, y Gymuned a Gwasanaethau Hamdden yn cael ei awdurdodi o dan y ddeddfwriaeth a restrir yn yr adroddiad hwn, fel y gall swyddogion perthnasol yn yr is-adran ddefnyddio pwerau dirprwyedig i gyflawni eu dyletswyddau.

2. Bod Swyddog Monitro'r Cyngor yn gwneud y diwygiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad.

Bod sefydlu cytundebau trosglwyddo cyfatebol ar gyfer gorfodi Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 fel y'u diwygiwyd rhwng awdurdodau Pwysau a Mesurau Cyngor Caerffili a Chyngor Dinas Casnewydd yn cael eu cymeradwyo.

9. PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL CAERFFILI DDIOGELACH

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn mynd ati i hysbysu'r Cabinet am waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Ddiogelach a cheisio'u cymeradwyaeth ar gyfer y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru a chymeradwyaeth i Aelod y Cabinet â chyfrifoldeb am ddiogelwch cymunedol, sef yr Aelod Cabinet dros Gynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd ar hyn o bryd, fod yn gynrychiolydd pleidleisio ar ran Cyngor Caerffili ym Mhartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Ddiogelach.

Nododd y Cabinet ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyfrifol, gan gynnwys y Cyngor, gydweithio ar ffurf Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i fynd i'r afael â throseddu ac anhrefn, camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill, a lleihau aildroseddu.

Nododd y Cabinet yr amrywiol fentrau sydd wedi'u datblygu gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a nododd fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent wedi sefydlu gweithgor i gynnal ei adolygiad ei hun o ddiogelwch cymunedol yn y rhanbarth.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Bod gwaith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Ddiogelach yn cael ei nodi.

2. Bod y diweddariad i Gylch Gorchwyl Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Ddiogelach yn cael ei gymeradwyo.

3. Bod Aelod y Cabinet â chyfrifoldeb am ddiogelwch cymunedol, sef yr Aelod Cabinet dros Gynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd ar hyn o bryd, yn cael ei gymeradwyo'n gynrychiolydd pleidleisio ar ran Cyngor Caerffili ym Mhartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Ddiogelach.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.45pm.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 19 Hydref 2022.

_____

CADEIRYDD